The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Twitter: @PINSgov

Mae gwybodaeth bellach amdanom ar gael yn
http://gov.wales/topics/planning/appeals/?lang=cy

CAIS AM WASANAETHAU CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO MEWN PERTHYNAS Â DATBLYGIAD O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL A GYNIGIR A61Z1 - DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GWYBODAETH BWYSIG

DARLLENWCH CYN CYFLWYNO'R FFURFLEN HON:

Caiff y cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio a ddarparwn ei gynnig heb ragfarn ynghylch unrhyw ystyriaeth o geisiadau cynllunio cysylltiedig yn y dyfodol ac fe'i rhoddir yn unig ar sail y wybodaeth a roddir ar adeg eich cais. Mae ffioedd yn daladwy am y cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio a roddwn, fel y nodir yn adran 11 y ffurflen hon.

Rydym yn eich annog yn gryf i drafod eich cais gyda ni cyn cyflwyno'r ffurflen hon, fel y gallwn sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol i ddelio â'ch cais a threfniadau ar gyfer anfonebu ffioedd yn eu lle pan fyddwn yn ei derbyn. Os na fyddwch yn rhoi rhybudd o flaen llaw, gall hyn achosi oedi wrth drin eich cais a darparu ein cyngor.

Mae cyngor ynghylch gwasanaethau cyn cyflwyno cais cynllunio ar gael yn ein canllaw gweithdrefnol http://gov.wales/topics/planning/developcontrol/developments-of-national-significance/?lang=cy. Dylech gyfeirio at y cyngor hwn wrth wneud eich cais a llenwi'r ffurflen hon.

Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio
Lle cafwyd cyngor blaenorol cyn cyflwyno cais cynllunio neu os rhoddwyd hysbysiad ffurfiol o gais DAC eisoes.

Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl)

1. Ymgeisydd

Enw

Enw Sefydliad (os yn berthnasol)

2. Asiant (os oes un) ar gyfer y cais cynllunio

Enw Cyswllt

Enw Sefydliad (os yn berthnasol)

Eich Cyf

3. Y posibilrwydd o ymweld â safle a chyfarfodydd cyn cyflwyno cais cynllunio

A ellir gweld y safle o ffordd gyhoeddus, llwybr troed cyhoeddus, llwybr ceffylau neu dir cyhoeddus arall? GELLIR ☐ NA ELLIR ☐

Os bydd angen ymweld â'r safle, â phwy y dylid cysylltu er mwyn gwneud trefniadau? Yr Ymgeisydd ☐ Yr Asiant ☐ Arall ☐

Os "Arall", rhowch: Enw Cyswllt

A ydych yn gofyn am gyfarfod gyda'n swyddogion er mwyn trafod eich cais am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio? YDW ☐ NAC YDW ☐

Os Ydw, rhowch fanylion y dyddiad a'r lleoliad a ffefrir gennych:

4. Lleoliad neu Lwybr y Datblygiad a Gynigir - *Rhaid rhoi datganiad byr sy'n nodi'n glir lleoliad safle'r cais cynllunio, neu'r llwybr os yw'n gynllun llinellol. Dylid rhoi ystyriaeth i'r defnydd o gyfeirnodi grid priodol, megis cyfeirnodau grid mapiau'r Arolwg Ordnans, cyfeirnodau lledred/hydred, ac ati.*

Disgrifiad o leoliad safle(oedd) y cais cynllunio, neu lwybr y datblygiad. (Cyfeiriwch ar gynlluniau priodol.)

A yw'n safle sengl neu'n safle llinellol?	**SENGL** ☐		**LLINELLOL** ☐		
Please provide Grid reference(s)	Dwyreiniad		Dechrau	Dwyreiniad	
	Gogleddiad			Gogleddiad	
			Canol	Dwyreiniad	
				Gogleddiad	
			Diwedd	Dwyreiniad	
				Gogleddiad	

5. Disgrifiad annhechnegol o'r Datblygiad a Gynigir neu agwedd/au o'r Cynnig yn ymwneud â'r cais hwn am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio - *Dylai hwn fod y disgrifiad diweddaraf o'r cynnig a fwriedir ar adeg eich cais.*

6. Cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio a dderbyniwyd oddi wrthym ni neu gyrff eraill - *rhowch ddisgrifiad byr o unrhyw gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth gyrff eraill, e.e. yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu ymgyngoreion statudol. Dylid cynnwys copi o'r cyngor hwnnw gyda'r cais hwn.*

7. Natur y cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio sydd ei angen - *ticiwch pa un o'r canlynol sy'n berthnasol i'r cais hwn.*

A. Testun cynllun y cais cynllunio a gynigir ☐

B. Elfen o'r prosiect sy'n destun caniatâd eilaidd – rhowch fanylion isod. ☐

C. Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ☐

Ch. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ☐

D. Ymgysylltu a/neu Ymgynghori ☐

Dd. Cyngor gweithdrefnol yn ymwneud â chyflwyno neu archwilio ☐

8. Disgrifiad o'r cais am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio - *disgrifiwch y cyngor a geisir, gan gynnwys pa elfennau o'r cynllun a gynigir y mae'n ymwneud â nhw, a'r testun. E.e. effeithiau tirweddol a gweledol; trafnidiaeth; bioamrywiaeth; ac ati.*

9. Sgrinio a Chwmpasu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol - *ticiwch isod os ydych yn gwneud cais am gyfarwyddyd sgrinio neu gwmpasu AEA ochr yn ochr â'ch cais am wasanaethau cyn cyflwyno cais cynllunio.*

A. Angen cyfarwyddyd sgrinio AEA ☐

B. Angen cyfarwyddyd cwmpasu AEA ☐

10. Dogfennau ategol hanfodol - *rhowch restr o'r dogfennau rydych yn eu darparu i gefnogi eich cais am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio, gan gadarnhau eich bod wedi cynnwys copïau gyda'ch cais.*

Ticiwch y blychau i gadarnhau pa ddogfennau/tystiolaeth rydych wedi'u darparu

1. Dogfennau i gefnogi eich cais am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio (rhestrwch y rhain isod). ☐

10. Dogfennau ategol hanfodol (parhad)

2. Copi o unrhyw gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio a dderbyniwyd oddi wrthym ni neu gyrff eraill (gweler adran 6 uchod). ☐

3. Copi o gynllun yn nodi'r tir sy'n berthnasol i'r cynnig (rhaid ei ddylunio i raddfa a nodir a rhaid iddo ddangos cyfeiriad y Gogledd) – Dylai hwn gynnwys manylion unrhyw safleoedd neu nodweddion cadwraeth natur, o bwysigrwydd daearegol neu o ran tirwedd, statudol neu anstatudol; cynefinoedd rhywogaethau a warchodir, cynefinoedd pwysig neu nodweddion amrywiaeth eraill; a chyrff dŵr mewn cynllun rheoli basn afon. ☐

4. Copi o unrhyw gynlluniau ychwanegol (rhaid eu dylunio i raddfa a nodir a rhaid iddynt ddangos cyfeiriad y Gogledd), dyluniadau neu ddogfennau sydd eu hangen i hysbysu'r cais hwn am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio. ☐

11. FFIOEDD AC AMSERLENNI AR GYFER CYNGOR CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO

Bydd ceisiadau am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio yn destun ffioedd i'w talu yn seiliedig ar y cyfraddau dyddiol ar gyfer amser Swyddog Cynllunio ac Arolygydd a nodir yn Natblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016. Mae'r amser a dreulir ar geisiadau yn debygol o olygu asesiadau wrth ddesg yn ogystal ag ymweld â safleoedd lle bo hynny'n briodol; caiff natur y gwaith a wneir a'r amser a dreulir eu cofnodi a bydd y wybodaeth ar gael i chi. Ni chodir tâl am weithredu swyddogaethau statudol megis sgrinio a chwmpasu AEA. Fodd bynnag, gellir codi tâl am unrhyw gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio sy'n ymwneud ag AEA neu ARhC sydd y tu allan i'r broses statudol. Byddwn yn anfon anfoneb atoch ar gyfer y ffioedd perthnasol yn dilyn darpariaeth ein cyngor. Rhaid i anfonebau gael eu talu o fewn 21 diwrnod gwaith; os nad ydynt yn cael eu talu o fewn y cyfnod hwnnw, bydd unrhyw geisiadau pellach yn cael eu gwrthod hyd nes y gwneir taliad.

Mae'n ofynnol i ni ymdrin â cheisiadau am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio o fewn ***28 diwrnod o ddyddiad y cais, neu unrhyw gyfnod hwy a benderfynir gan Weinidogion Cymru (neu yn yr achos hwn, yr Arolygiaeth Gynllunio)****. Yn ymarferol, byddwn yn anelu at weithredu o fewn y cyfnod o 28 diwrnod mewn achosion symlach, ond byddwn yn debygol o gytuno â chi ar gyfnod hirach ar gyfer ceisiadau mwy cymhleth. Byddwn yn ceisio bod yn glir o flaen llaw ynghylch yr amserlenni posibl ar gyfer prosesu ceisiadau, yn seiliedig ar yr adnoddau sydd ar gael, a dylech fod yn realistig yn eich disgwyliadau ar gyfer derbyn cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio wrth baratoi eich cais.*

Byddwn yn anelu at gadarnhau derbyn eich cais a'r amserlenni a'r costau tebygol o fewn tri diwrnod gwaith.

12. CYHOEDDI CYNGOR CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO

Bwriedir i'r broses o wneud cais DAC fod yn dryloyw ac yn gynhwysol. Fel y cyfryw, bydd unrhyw gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio a ddarperir gennym yn cael ei wneud ar gael ar-lein ar gyfer unigolion, sefydliadau ac ymgeiswyr sydd â buddiant yn y broses DAC. Fodd bynnag, rydym hefyd yn deall bod angen cydbwysedd priodol rhwng bod yn agored a galluogi buddsoddwyr posibl i ddiogelu gwybodaeth sensitif yn ystod camau cynharaf y drafodaeth. Felly, byddwn yn gofyn am eich cytundeb i ni gyhoeddi ein cyngor wedi iddo gael ei roi i chi a byddwn fel arall yn gohirio'r cyhoeddi hyd nes y bydd y cais wedi'i ddilysu neu'r cyfnod hysbysu cyn cyflwyno cais cynllunio wedi dod i ben.

Dylech nodi ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a/neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Gall y rhain, yn dilyn cais, ei gwneud yn ofynnol i ni ddatgelu unrhyw wybodaeth heb ei chyhoeddi y cytunwyd i ohirio'i chyhoeddi, naill ai lle nad yw esemptiad neu eithriad yn berthnasol, neu, yn holl amgylchiadau'r achos, os yw lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth yn gorbwyso lles y cyhoedd wrth gynnal yr esemptiad neu eithriad.

Manylion Personol (ni fydd y rhain ar gael i'r cyhoedd)

1. Manylion personol yr ymgeisydd

Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif Ffôn yn ystod y Dydd	
E-bost	

Cysylltwch â mi drwy E-bost ☐ Post ☐

2. MANYLION PERSONOL YR ASIANT (os oes un)

Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif Ffôn yn ystod y Dydd	
E-bost	

Cysylltwch â mi drwy E-bost ☐ Post ☐

3. **Arall** *(rhan 3)*

Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif Ffôn yn ystod y Dydd	
E-bost	

Cysylltwch â mi drwy E-bost ☐ Post ☐

Mae casglu a phrosesu'r data personol a roddwch ar y ffurflen hon yn unol â thelerau ein cofrestriad o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am ein Polisi Diogelu Data ar ein gwefan o dan "Datganiad Preifatrwydd". (http://planninginspectorate.gov.wales/privacy_policy/?lang=cy)

Llofnodwch isod

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi amgáu neu atodi copïau o'r cynlluniau, dyluniadau a dogfennau a osodir allan yn adran 10. ☐

Rwy'n cadarnhau bod pob adran wedi'i llenwi'n llawn a bod y manylion a roddwyd yn gywir hyd at eithaf fy ngwybodaeth. ☐

Rwy'n deall eich bod yn gallu defnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennyf at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac y gellir cyhoeddi'r cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio a ddarperir gennych ar-lein, fel y disgrifir yn adran 12. Wrth gyflwyno'r ffurflen hon, cytunaf i'r wybodaeth a roddaf gael ei defnyddio yn y modd hwn. ☐

Llofnod:

Enw (priflythrennau)

Dyddiad

Ar ran (os yn berthnasol)

Dylid anfon NAILL AI 1 COPI ELECTRONIG neu 1 COPI CALED atom ni yn:

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: dns.wales@pins.gsi.gov.uk

Llinell gymorth: 02920 823866

© Hawlfraint y Goron 2015

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch at http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Dylech anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y ddogfen hon/cyhoeddiad hwn atom ni yn y cyfeiriad uchod neu anfonwch neges e-bost at: wales@pins.gsi.gov.uk.